# Canllaw ar gyfer Enwebion

*Yr unig beth y mae angen ichi ei wneud fel ymgeisydd / tîm yw rhoi caniatâd i gael eich enwebu. Gallwch wneud hyn drwy'r ddolen a anfonir atoch gan eich enwebydd (a welir ar ein gwefan)*

Er mwyn cwblhau'r ffurflen enwebu, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi rhannu eich CV gydag eich enwebydd ymlaen llaw (enwebiad unigolion yn unig).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o Fedalau a Gwobrau Cymdeithas Ddysgedig Cymru a'r broses sy'n gysylltiedig â'ch gwybodaeth. Gellir gweld y rheoliadau llawn ar ein gwefan.

**Pwy a all gael ei enwebu?**

Pwrpas medalau a gwobrau'r Gymdeithas yw dathlu ymchwilwyr ac ymarferwyr y mae eu gwaith yn effeithio ar ddatblygiad gwybodaeth a/neu rym ymchwil ac arloesedd.

- Dylai ymgeiswyr neu dimau gael cysylltiad â Chymru – h.y. byw yng Nghymru, yn enedigol o Gymru neu ryw gysylltiad arall arbennig â Chymru.
- Diffinnir timau fel unrhyw nifer o unigolion (dros 3) sy'n gweithio gyda'i gilydd.
- Does dim angen i ymgeiswyr na thimau fod yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru

**Categorïau'r medalau a gwobrau**

Gallwch weld y gwahanol gategorïau o fedalau a gwobrau ar Wefan Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Ni allwch ond cael eich enwebu am un fedal neu wobr bob blwyddyn.

**Diffiniad o unigolion/timau sy'n gymwys ar gyfer Gwobrau Effaith:**

Gall enillwyr fod o unrhyw faes neu broffesiwn.

**Diffiniad o unigolion sy'n gymwys ar gyfer y Medalau Gyrfa Sefydledig:**

Bydd yr enillwyr yn unigolion sydd ar ganol, neu mewn cyfnod hwyrach yn eu gyrfa. Diffinnir hyn fel rhywun, ar adeg yr enwebiad, a enillodd Ddoethuriaeth, neu a gafodd eu penodi i'w swydd broffesiynol gyntaf (sy'n berthnasol i'w henwebiad), ddeng mlynedd neu fwy yn ôl.

Bydd yr enillwyr yn unigolion yng sydd ar ganol, neu mewn cyfnod hwyrach yn eu gyrfa – a ddiffinnir fel rhywun, ar adeg yr enwebiad, a chanddo fwy na deng mlynedd o brofiad mewn ymchwil neu waith proffesiynol perthnasol. (10 mlynedd neu 10 mlynedd cyfwerth ag amser llawn)

**Diffiniad o unigolion sy'n gymwys ar gyfer y Medalau Gyrfa Gynnar:**

Mae Medalau Dillwyn ar gyfer ymchwilwyr ac ymarferwyr Gyrfa Gynnar, a ddiffinnir fel rhywun sydd fel arfer, ar adeg y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau mewn unrhyw flwyddyn benodol, â llai na deng mlynedd o brofiad mewn ymchwil neu waith proffesiynol perthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i enwebiadau ar gyfer unigolion y tu allan i'r ffrâm amser hon ond sydd wedi cael seibiant gyrfa neu seibiant o waith ymchwil *beth bynnag fo'r rheswm.* (10 mlynedd neu 10 mlynedd cyfwerth ag amser llawn)

**Beth yw'r broses?**
Bydd y sawl sy'n dymuno eich enwebu yn llenwi ffurflen enwebu yn manylu ar y rhesymau pam eu bod o'r farn eich bod chi neu eich tîm yn gymwys i ennill y fedal neu'r wobr dan sylw. Gallwch weld y ffurflen wag ar ein gwefan.

I gyd-fynd â'r ffurflen cyflwynir geirda wedi'i ysgrifennu gan unigolyn priodol sy'n cydymffurfio â'n canllawiau. Bydd y sawl sy'n eich enwebu yn trefnu hyn.

**Beth sydd angen ichi ei wneud?**
Rhoi caniatâd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru ystyried eich enwebiad. Gallwch wneud hyn drwy lenwi'r ffurflen ar lein syml (gwelir hwn ar ein gwefan). Dylai eich enwebydd gysylltu â chi i egluro hyn a darparu'r ddolen hefyd. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl a hysbysu'ch enwebwr pan fyddwch wedi'i gwblhau. Byddant yn dweud wrthych chi beth yw'r dyddiad cau ar gyfer hyn.

Yn rhan o hyn bydd opsiwn i gwblhau cwestiwn ddewisol Effaith ar Yrfa i amlygu unrhyw ffactorau sydd wedi amharu ar eich gyrfa. Rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau unigol a nodweddion gwarchodedig effeithio ar yrfa. Er mwyn hyrwyddo adolygiad teg, rydym wedi cyflwyno'r cwestiwn hon ac yn annog pob ymgeisydd a thîm i'w defnyddio fel ffordd o dynnu sylw'r Pwyllgor Craffu ar Fedalau a Gwobrau at unrhyw beth a allai fod wedi cael effaith ar eu gyrfa a'u cyfraniadau at y byd dysgu ac ymchwil. Gellir gweld copi o'r cwestiwn Effaith ar Yrfa ar ein gwefan.

**Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiad gael ei gyflwyno?**

Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, bydd Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau yn cyfarfod – mae hwn yn cynnwys Cymrodyr a chymheiriaid a fydd yn chwilio am dystiolaeth bod yr ymgeisydd yn bodloni neu'n rhagori ar y meini prawf. Caiff yr enwebiadau a'r trafodaethau eu trin yn gyfrinachol.

Ar ôl iddynt ddewis yr enillwyr, bydd y Gymdeithas yn cysylltu â'r holl enwebwyr i'w hysbysu am benderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau. Bydd yr enwebwyr wedyn yn cysylltu â'r ymgeiswyr i'w hysbysu am y penderfyniad.

Bydd staff y Gymdeithas yn cysylltu'n uniongyrchol â'r enillwyr i'w llongyfarch a bydd copi o'r ohebiaeth yn cael ei anfon at eu henwebydd.

Ni fyddwn ond yn rhoi adborth byr mewn ysgrifen i ymgeiswyr aflwyddiannus Medalau Dillwyn, a hynny drwy eu henwebydd.

Bydd enillwyr a'u henwebwyr yn cael gwahoddiad i seremoni er mwyn derbyn y fedal neu'r wobr. Cynhelir y seremoni yng Nghaerdydd ym mis Hydref neu fis Tachwedd fel arfer, a chynigir treuliau rhesymol er mwyn galluogi enillwyr i fod yn bresennol.